

Arolwg Cenedlaethol o Foddhad y Dysgwr yng Nghymru 2003

Crynodeb: Dysgwyr yn y De-ddwyrain

Sail ar gyfer dysgwyr yn Ne-ddwyrain Cymru: 1742 AB, 487 Dysgu yn y Gwaith wedi'i bwysoli

Cyflwyniad

Mae'r crynodeb hwn yn archwilio rhai o'r canfyddiadau ar gyfer dysgwyr ym maes Addysg Bellach (AB) a Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru sy'n deillio o'r Arolwg o Foddhad y Dysgwr. Ni cheir yma ddadansoddiad o Ddysgu Cymunedol ac Oedolion o ganlyniad i faint cymharol isel sail rhai o'r rhanbarthau. Rydym wedi nodi peth gwybodaeth am ddemograffeg isod. Mae'n bosibl y gall gwahaniaethau allweddol yma effeithio ar y dadansoddiad drwy gydol y crynodeb. Dyma'r dadansoddiad o oedran a'r dull dysgu ar gyfer ymatebwyr hyn:

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
Oed	%	%	%	%
16-18	25	33	36	39
19-24	14	17	49	46
25-54	50	42	15	15
55+	12	7	1	1
Dull dysgu				
Amser Llawn	32	43	50	52
Rhan-amser sy'n fwy na 3 awr yr wythnos	33	28	30	27
Rhan-amser sy'n llai na 3 awr yr wythnos	34	28	18	17
% sy'n mynychu yn ystod y dydd	69	68	92	92

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Bodddhad cyffredinol gyda'r profiad dysgu

Ar gyfer AB, mae diffygion bach yn y cyfraddau ar gyfer eithriadol fodlon a bodlon iawn wedi arwain at fod ychydig mwy o ddysgwyr yn weddol fodlon yn y rhanbarth hwn, o'u cymharu â'r ffigur cenedlaethol.

Yn achos Dysgu yn y Gwaith, eto roedd y ffigurau'n dangos lefelau tebyg iawn i'r lefelau o foddhad cenedlaethol.

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%
Eithriadol fodlon	27	26	23	23
Bodlon iawn	43	41	46	45
Gweddol fodlon	22	26	24	26
Heb fod yn un na'r llall	2	3	2	2
Eithriadol	5	5	4	3
anfodlon/anfodlon				
iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Bodddhad gyda'r addysgu/hyfforddiant

Ar gyfer maes AB a Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd tebygrwydd agos â'r lefelau bodddhad cenedlaethol ar gyfer addysgu/ hyfforddiant.

Cyfradd foddhad	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%
Eithriadol fodlon	30	30	22	20
Bodlon iawn	36	34	37	37

Gweddol fodlon	24	26	33	35
Heb fod yn un na'r llall	3	4	3	3
Eithriadol	6	6	5	5
anfodlon/anfodlon				
iawn/eithaf anfodlon				

Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried amrywiol fesurau penodol ar gyfer ansawdd athrawon / hyfforddwyr neu aseswyr a rhoi sgôr iddynt o 1 i 10 lle'r oedd 10 yn golygu eithriadol fodlon. Dengys y tabl canlynol:

- O ran dysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd y dysgwyr yn llai tebygol o roi llai na 9 neu 10 allan o 10 ar gyfer yr holl categorïau o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer AB.
- Yn achos dysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn, roedd y canfyddiadau yn debyg iawn i'r darlun cenedlaethol.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%
Gallu i esbonio'r pwnc	54	51	48	49
Gwrandao ar eich anghenion	51	50	47	48
Y pwnc yn ddiddorol/hwyllog	47	43	36	35
Yn gwneud defnydd da o amser y wers / sesiwn	44	40	37	37
Y gefnogaeth a gewch ganddynt	43	41	40	42
Ansawdd / hygyrchedd deunyddiau	43	40	38	38
Ymdrin â dysgwyr aflonyddgar	43	41	36	39
Adborth rheolaidd / prydlon	42	40	37	35
Eich deall chi a'r ffordd yr ydych yn hoffi dysgu	40	37	39	37
Targedau clir i'ch helpu i wella	39	37	38	39

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Gweinyddu / rheoli dysgu

O safbwynt rheoli a gweinyddu dysgu (mesurau penodol wedi'u cynllunio i archwilio sut y mae'r darparwr yn rheoli'r profiad dysgu):

- Roedd dysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru yn llai tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 i'w darparwr ar yr holl fesurau o'u cymharu â dysgwyr yng Nghymru yn gyffredinol. Roedd hyn i'w weld amlycaf yn achos "Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau", lle'r oedd gwahaniaeth o -6% i'w weld.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd dysgwyr ychydig yn fwy tebygol o roi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 i rai categorïau o'u cymharu â lefelau cenedlaethol cyffredinol.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%

Helpu pobl newydd i setlo i mewn	54	50	48	48
Rhoi cymorth pan fydd gen i neu ddysgwyr eraill broblemau	50	46	45	46
Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas ag sy'n bosib i'r dysgwr	45	41	42	43
Gwneud yn siŵr bod digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael	43	39	45	46
Rhoi gwybod am newidiadau yn amseroedd y sesiynau	41	35	35	38
Aseswyr yn dod i asesu fel y cynlluniwyd	Dd/B	Dd/B	52	54
Gweld yr un aseswr bob tro	Dd/B	Dd/B	56	56

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Bodddhad gyda chyfleusterau

Yn debyg i'r ymarfer i roi sgôr i athrawon / hyfforddwyr ac aseswyr, gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ystyried yr amrywiol fathau o gyfleusterau gan roi sgôr o 1 i 10 iddynt lle bydd 10 yn eithriadol fodlon. Dengys y tabl isod % y dysgwyr sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10 allan o 10 (y graddau gorau). Dengys y tabl:

- Roedd dysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru yn llai tebygol o roi 9 neu 10 allan o 10 i'w cyfleusterau o'u cymharu â dysgwyr AB yn gyffredinol. Roedd y gwahaniaeth mwyaf i'w weld yn y cyfleusterau Gofal Plant, a oedd -8% yn llai tebygol o gael sgôr o 9 neu 10.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith, roedd y cyfraddau yn debyg iawn i'r tueddiadau cenedlaethol.

Mesur (% a gafodd sgôr o 9 neu 10 allan o 10)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%
Offer / cyfleusterau TG	55	51	54	55
Llyfrgell a chanolfan ddysgu	52	52	37	40
Cyfleusterau ar gyfer anableddau / anawsterau dysgu	52	48	47	49
Cyfleusterau gofal plant	49	41	30	29
Gwasanaethau cefnogi dysgu	48	42	44	44
Gwasanaethau cefnogi eraill (cyngori, cyngor ar gyllid ac ati)	43	37	34	35
Cyngor gyrfaol	41	37	41	44
Offer / cyfleusterau chwaraeon	41	35	35	36
Offer arbenigol arall sy'n berthnasol i'r dysgu	40	38	39	37
Ffreutur/caffi	33	30	37	37
Cyfleusterau ar gyfer cymdeithasu â dysgwyr eraill	31	28	32	33

Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar gyfer ystod o elfennau'r rhaglen ddysgu, gofynnwyd i ddysgwyr i ba raddau, os o gwbl, oedd eu dysgu ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Yn AB yn Ne-ddwyrain Cymru, mae lefelau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn debyg iawn i'r lefelau cenedlaethol.
- Ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn y rhanbarth hwn, nid oedd yr iaith Gymraeg mor amlwg, gyda mwy o ddysgwyr yn dweud nad oedd unrhyw gyfathrebu

drwy gyfrwng y Gymraeg o'u cymharu â'r ffigurau cenedlaethol.

	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
Cymorth gan hyfforddwyr / tiwtoriaid / aseswyr y tu allan i wersi / sesiynau	%	%	%	%
Rhywfaint	11	10	18	13
I gyd	9	7	15	12
Dim	69	69	48	55
Cyfathrebiad lafar mewn gwersi/sesiynau				
Rhywfaint	11	9	17	13
I gyd	6	5	12	10
Dim	72	75	52	58
Defnyddiau ysgrifenedig/taflenni gwaith				
Rhywfaint	13	13	22	16
I gyd	10	8	15	14
Dim	68	71	47	53

Noder: Mae celloedd wedi'u huwchleuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chyfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

Wrth archwilio a oedd darparwyr wedi gofyn i ddysgwyr a hoffent ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl:

- Dyweddodd 25% o ddysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 32% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Dyweddodd 26% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru eu bod wedi cael cynnig (o'u cymharu â 35% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

O ran dewis i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Roedd yn well gan 6% o ddysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru ddysgu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg (o'u cymharu â 6% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Roedd yn well gan 6% o ddysgwyr yn Ne-ddwyrain Cymru ddysgu'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg (o'u cymharu â 8% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

Cyn dechrau ar y cwrs

Cafwyd gwahaniaethau sylweddol yn y modd yr oedd dysgwyr yn y rhanbarth hwn yn defnyddio ffrydiau cyngor o'u cymharu â'r darlun cenedlaethol:

- Ar gyfer AB yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd pobl yn fwy tebygol o geisio cyngor gan hyfforddwyr neu diwtoriaid yn y darparwr hyfforddiant, er bod nifer mwy na'r cyfartaledd yn ceisio cyngor gan gynghorwr gyrfaol yr ysgol yn y rhanbarth hwn. Roedd rhieni ac athrawon yn ffynonellau mwy poblogaidd o gyngor yn y rhanbarth hwn, ond roedd ymgynghori â chyflogwr yn ddewis llai poblogaidd.
- O ran Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain, roedd yr arferion ceisio cyngor yn adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

Ffynhonnell y cyngor (% yn defnyddio pob ffynhonnell)	AB		Dysgu yn y Gwaith	
	Pob AB	AB yn y De-ddwyrain	Pob Dysgu yn y Gwaith	Dysgu yn y Gwaith yn y De-ddwyrain
Sail wedi'i bwysoli:	4707	1742	1001	487
	%	%	%	%
Hyfforddwyr/tiwtoriaid yn y sefydliad darparu	40	43	36	30
Ffrindiau	36	40	37	36
Adran mynediadau'r coleg	27	26	16	13
Rhieni / aelodau eraill o'r teulu	25	31	39	36

Cyflogwr	24	19	55	53
Athrawon yn yr ysgol	22	27	26	24
Gyrfa Cymru	21	25	43	43
Cynghorwr gyrfaol yr ysgol	20	27	33	32
Gwasanaeth Learn Direct	7	7	7	7
Gwefan Learn Direct	4	4	4	4

Noder: Mae celloedd wedi'u huwcholeuo ar gyfer AB neu Dysgu yn y Gwaith os yw % y rhanbarth o leiaf +/-5% yn uwch neu'n is na chylfartaledd cyffredinol Cymru. Ddim yn gwybod/ddim wedi nodi heb eu cynnwys.

O safbwynt gwneud y penderfyniad a chael y dewis cyntaf:

- Llwyddodd 79% o ddysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru i gael eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 77% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 89% o ddysgwyr AB yn Ne-ddwyrain Cymru i gael eu *pwnc/cymhwyster dewis cyntaf* (o'u cymharu â 87% ar gyfer AB yn gyffredinol).
- Llwyddodd 59% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru i gael eu *dewis cyntaf o ddarparwr* (o'u cymharu â 61% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).
- Llwyddodd 81% o ddysgwyr Dysgu yn y Gwaith yn Ne-ddwyrain Cymru i gael eu *pwnc/cymhwyster dewis cyntaf* (o'u cymharu â 81% ar gyfer Dysgu yn y Gwaith yn gyffredinol).

I archwilio'r data hwn ymhellach, ewch i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch lawrlwytho adroddiadau a dadansoddi'r data eich hun.

<http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/?lang=cy>

